Dyma’r canllawiau ar gyfer cronfa Ffilm Cymru:

# Cronfa Connector

**Cynnwys**


Cyflwyniad ....................................................................................2

Enghreifftiau o Brosiectau Connector Blaenorol.................................3

O ble mae cyllid Connector Ffilm Cymru yn dod? ..............................4

Beth yw meini prawf y gronfa hon? ...................................................5

  Meini Prawf Cymhwysedd............................................................5

  Blaenoriaethau Cyllido Connector.................................................6

  Yr hyn na allwn ei gyllido..........................................................10

Sut ydw i'n gwneud cais? ...............................................................11

  Terfynau amser ........................................................................12

  A allaf gael cymorth mynediad i gwblhau fy nghais?.....................12

  Manylion Cyswllt......................................................................12

  Manylion y Gyllideb..................................................................13

  Costau Mynediad .....................................................................14

Beth sy'n digwydd nesaf?...............................................................15

  Y Broses Asesu........................................................................15

  Meini Prawf Asesu....................................................................16

  Adborth ..................................................................................16

  Ailgyflwyno..............................................................................17

Sut ydw i’n gweithio gyda Ffilm Cymru os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i mi?.....................................................................18

  Y broses o ddyfarnu arian...........................................................19



Ariennir gan Y Loteri / Lottery Funded

Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid? ....................................19
Nodau Strategol ....................................................................................21
Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd ..................................................21
Cynaliadwyedd Amgylcheddol ....................................................22
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant..................................22
Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales ....................................24

## Cyflwyniad

Croeso i'r canllawiau ar gyfer cyllid Connector Ffilm Cymru.

Mae Ffilm Cymru yn gwmni buddiant cymunedol sydd â chylch gorchwyl i ddatblygu sector ffilm cynaliadwy yng Nghymru. Un o'r ffyrdd allweddol rydym yn gwneud hyn yw canfod a meithrin gwneuthurwyr ffilm o gam cynnar, gan roi cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant iddyn nhw, ac nid dim ond cyllid ar gyfer eu syniadau am ffilmiau.

Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n cynorthwyo pobl sydd eisoes yn gwneud gwaith gwych i ddatblygu talent a'n bod ni'n cydweithio â phobl sy'n gallu cynnig dealltwriaeth newydd i'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Dyna pam y gwnaethon ni greu Cronfa Connector, gan ddarparu hyd at £10k o gyllid grant i sefydliadau i'w helpu i gyflawni digwyddiadau, hyfforddiant, adnoddau, neu weithgarwch arall a all gynorthwyo awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr newydd neu ddatblygol a aned neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru).

Yn unol â'r Blaenoriaethau Cyllido yr eglurwn yn fanwl yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, mae ein cronfa Connector yn blaenoriaethu gweithgarwch a fydd yn cefnogi darpar wneuthurwyr ffilmiau neu wneuthurwyr ffilmiau newydd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn

ein sector ar hyn o bryd yn unol â'n Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb. Credwn fod llawer o weithgarwch hyfforddi yn blaenoriaethu'r "gorau a'r disgleiriaf"; pobl sydd mewn sefyllfa economaidd-gymdeithasol i gael eu hystyried yn dalentog, boed hynny drwy leoliad daearyddol, mynediad i rwydweithiau, neu'r gallu i weithio am ddim neu hunangyllido gwaith. Rydym am gynorthwyo gweithgarwch a all weld y tu hwnt i'r breintiau hyn, ac a all gyrraedd a meithrin talent anhygoel o Gymru ar eu telerau eu hunain. Credwn hefyd y gall talent gael ei 'hymyleiddio' o fewn cynlluniau ac felly rydym am sicrhau bod pob gweithgaredd yn ystyried gwaddol a llwybrau'r dyfodol i gyfranogwyr.

Os oes unrhyw beth yn aneglur yn y canllawiau hyn, neu os hoffech gael cymorth i wneud cais, cysylltwch â ni (gweler y Manylion Cyswllt isod).

## Enghreifftiau o Brosiectau Connector Blaenorol

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau blaenorol y mae Connector wedi'u cynorthwyo. Cymerwch olwg ar Flaenoriaethau Cyllido Connector i gael manylion am yr hyn rydym yn arbennig o awyddus i'w weld mewn ceisiadau eleni.

- Sosials Rhwydweithio Ffilm – cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio ffilm hygyrch ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau mewn ardaloedd o Gymru sydd â lefelau uchel o anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Sinema Golau – llwyfan i gefnogi gwneuthurwyr ffilmiau newydd a datblygol o blith y mwyafrif byd-eang trwy ddangosiadau, gweithdai a digwyddiadau gŵyl.
- Hyfforddiant a chynhyrchu ffilmiau byrion i wneuthurwyr ffilm ac actorion niwrowahanol gyda Theatr Hijinx a 104 Films.

- Writers Lab UK & Ireland – cyfres o weithdai datblygu sgriptiau ymhlith cymheiriaid ac wedi'u harwain gan fentoriaid ar gyfer awduron dros 40 oed sy'n fenywod a phobl sy'n ystyried eu hunain yn anneuaidd.
- Tuag at Ddrafft Cyntaf – cwrs sgriptio dwyieithog yng Ngogledd Cymru.
- Digwyddiadau rhwydweithio i ddarpar wneuthurwyr ffilmiau animeiddio gyda Gŵyl Animeiddio Caerdydd.
- One Stop Doc Shop – cyfres o adnoddau ar-lein i annog a chefnogi gwneuthurwyr ffilmiau dogfen sy'n fenywod ac yn bobl anneuaidd.

## O ble mae cyllid Connector Ffilm Cymru yn dod?

Mae cyllid Connector Ffilm Cymru yn cynnwys Cronfeydd y Loteri Genedlaethol a ddirprwywyd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a chronfeydd RHWYDWAITH BFI a ddirprwywyd drwy Sefydliad Ffilm Prydain (BFI). Ni yw partner cyflawni RHWYDWAITH BFI yng Nghymru, sef cydweithrediad rhwng y BFI, sefydliadau ffilm cenedlaethol a lleoliadau diwylliannol blaenllaw ledled y Deyrnas Unedig. Mae RHWYDWAITH BFI yn darparu cyllid ar gyfer ffilmiau byrion a gwaith datblygu cynnar ar ffilmiau nodwedd, datblygiad proffesiynol gyda chefnogaeth y diwydiant a chymorth rhwydweithio i gynhyrchwyr, awduron a chyfarwyddwyr 18 oed a hŷn.

Mae gan Ffilm Cymru tua £60K o gyllid nad yw'n ad-daladwy i'w fuddsoddi mewn prosiectau Connector tan ddiwedd mis Mawrth 2026. Yr uchafswm y byddwn yn ei fuddsoddi mewn un prosiect yw £10k a gobeithiwn weld ystod o lefelau cyllideb yn y ceisiadau a ddaw i law.

## Beth yw meini prawf y gronfa hon?

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI baramedrau cyllido y mae ein cyllid yn eu hadlewyrchu, a rheolau cyllido'r Loteri Genedlaethol yw rhai ohonynt. Yn ogystal â hyn, rydym wedi llunio ein cronfa Connector mewn ymateb i'r anghenion rydym wedi'u gweld yn ein 17 mlynedd o fodolaeth yn ogystal ag esblygiad y sector ffilmiau ehangach, dan arweiniad y gwneuthurwyr ffilmiau a ariannwn a'n Bwrdd.

## Meini Prawf Cymhwysedd

Gallwch wneud cais am gyllid Connector:

- Os yw tîm cyflawni eich prosiect yn adlewyrchu profiad yn y diwydiannau creadigol a/neu brofiad ym maes datblygu talent greadigol
- Gallwch wneud cais trwy sefydliad sydd wedi'i gofrestru yn y DU. Rydym yn annog partneriaethau gydag unigolion, grwpiau neu sefydliadau yng Nghymru a rhaid talu'r partner yng Nghymru am eu cyfraniad.
- Rydych chi a thîm eich prosiect dros 18 oed ac nid ydych mewn addysg amser llawn.
- Mae gennych gynnig ar gyfer gweithgarwch a fydd yn cefnogi pobl sydd dros 18 oed ac nad ydynt mewn addysg amser llawn ar drywydd i wneud ffilmiau nodwedd i'w rhyddhau yn y sinema.
- Bydd cyfranogwyr eich gweithgarwch yn bennaf yn awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr a aned yng Nghymru neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru nad ydynt eto wedi arwain ar ffilm nodwedd sydd wedi'i dosbarthu'n fasnachol yn y DU.

- Chi yw, neu chi fydd, yr arweinydd neu'r cyd-arweinydd ar y prosiect a ddisgrifir.
- Gall eich gweithgaredd gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2026.

Mae sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid Connector yn flaenorol yn gymwys i wneud cais, ar yr amod eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau adrodd a chyflawni contractiol ac wedi egluro sut mae'r prosiect blaenorol wedi dylanwadu ar eu strategaeth ar gyfer y prosiect newydd neu barhad y prosiect.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaeth, gan fod angen cydweithio’n aml i sicrhau bod tîm y prosiect yn adlewyrchu dealltwriaeth o’r diwydiant ffilmiau, rheoli prosiectau, datblygu talent a chynhyrchu digwyddiadau, yn ogystal â mynediad i rwydweithiau o bobl greadigol yng Nghymru nad yw eu profiad bywyd yn cael ei gynrychioli’n ddigonol yn y diwydiant ffilm.

Rydym yn arbennig o awyddus i weld timau o ymgeiswyr sy'n cynnwys rolau arweiniol (cyflogedig) ar gyfer unigolion â phrofiad bywyd sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged sy'n ymwneud â dylunio'r gweithgarwch.

Yn ogystal â'r meini prawf cymhwysedd hyn, byddwn yn canolbwyntio ein buddsoddiad ar y blaenoriaethau isod.

## Blaenoriaethau Cyllido Connector

Bydd Ffilm Cymru yn blaenoriaethu cymorth i weithgarwch Connector sy’n cyd-fynd â’n blaenoriaethau ‘ysbrydoli’ ‘creu’ ‘archwilio’ fel sy’n cael ei egluro ymhellach isod AC sy’n canolbwyntio ar:

- Gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd sydd fel arfer heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y math hwn o gymorth
- Unigolion sydd yn ystyried eu bod yn f/Fyddar, Anabl, niwroamrywiol, yn colli eu golwg neu glyw neu sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol nad ydynt yn ystyried ei fod yn gysylltiedig â'r derminoleg hon
- Unigolion sy'n uniaethu fel rhan o'r mwyafrif byd-eang (neu Ddu, Asiaidd neu o Ethnig Leiafrifol)
- Unigolion sy'n ystyried eu bod yn byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol neu eu bod yn dod o anfantais o'r fath.

Rydym yn argymell dull croestoriadol ym mhob gweithgarwch datblygu talent ond dylai ymgeiswyr fod â chynulleidfa ffocws sylfaenol ar gyfer eu gweithgarwch.

Nid yw'r rhestr isod yn hollgynhwysfawr ac rydym yn parhau i fod yn agored i syniadau eraill y mae angen amlwg amdanynt yn y sector ffilmiau yng Nghymru.

**Ysbrydoli**

- Cyfres o drafodaethau panel yn canolbwyntio ar egluro'r gwahaniaeth rhwng ffilm a theledu a sut i greu gyrfa sy'n rhychwantu'r ddau
- Gweithgarwch sy'n helpu talent teledu ffeithiol i bontio i'r diwydiant ffilmiau dogfen nodwedd
- Gweithgarwch sy'n helpu artistiaid delwedd symudol i bontio i'r diwydiant ffilmiau nodwedd
- Gweithgarwch yn canolbwyntio ar gynorthwyo talent i fod yn barod i ehangu o ffilmiau byrion cyllideb isel i ffilmiau byrion proffesiynol a/neu i ffilm nodwedd gyntaf

- Gweithgarwch sy'n cynnig offer ymarferol i ddatblygu gyrfa fel awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd yn y diwydiant ffilmiau. Gallai’r ddarpariaeth gynnwys cyflwyniad i gyfraith contract ac ariannu ffilmiau, ymgeisio am gyllid a phitsio, sut i osod eich ffioedd, sut i gael asiant, sut i rwydweithio, enghreifftiau o bobl sydd wedi cydbwyso swyddi bob dydd a chreu ffilmiau, a mapiau ffyrdd posibl drwy’r diwydiant.
- Dosbarthiadau meistr, sesiynau holi ac ateb a thrafodaethau panel yn ymwneud â ffilmiau nodwedd iaith leiafrifol a’r Gymraeg sydd wedi ennill gwobrau rhyngwladol, wedi’u hanelu at ysbrydoli gwneuthurwyr ffilmiau newydd sy’n siarad Cymraeg, sy’n ystyried eu hunain yn f\Fyddar, yn Anabl, neu’n niwroamrywiol, o anfantais economaidd-gymdeithasol neu sy’n rhan o’r Mwyafrif Byd-eang
- Dosbarthiadau Meistr, sesiynau holi ac ateb a thrafodaethau panel sy’n dwyn ynghyd ffilmiau dogfen neu animeiddiedig sinema annibynnol beiddgar sydd wedi ennill gwobrau rhyngwladol
- Gweithgarwch sy’n cynorthwyo darpar gyfarwyddwyr ffilmiau gan ystyried modiwlau fel arwain actorion ar y sgrin fawr a datblygu eich llais
- Hyfforddiant mewn sgriptio ffilmiau nodwedd
- Cyflwyniad i faterion busnes ffilmiau.

**Creu**

*Noder bod Creu ar gyfer ymgeiswyr y mae arnyn nhw angen cyllid partneriaeth.*

- Rhaglenni ffilm micro-fyr yn cydweithio â’r sector masnachol (e.e. hysbysebu)
- Rhaglenni ffilm micro-fyr yn cydweithio â ffurfiau eraill ar gelfyddyd

- Rhaglenni sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu eu syniadau ar gyfer gwaith ymdrochol sinematig
- Rhaglenni ffilm dogfen micro-fyr yn canolbwyntio ar weledigaeth awdurol
- Rhaglenni ffilm dogfen micro-fyr sy'n manteisio ar archif sgrin Cymru (y gellir cael gafael ar yr hawliau ar eu cyfer yn fforddiadwy, neu sydd allan o hawlfraint).
- Labordai ysgrifennu sgrin lle mae sgript ffilm nodwedd yn cael ei chwblhau fel un o'r canlyniadau.

**Archwilio**

- Digwyddiadau rhwydweithio syml isel eu cost sy'n gallu dwyn ynghyd dalent creu ffilmiau posibl a datblygol yng Ngogledd, Gorllewin neu Ganolbarth Cymru ar sail tymor hwy
- Cymuned ar-lein i gysylltu cynhyrchwyr o Gymru gyda ffocws ar ffilmiau nodwedd (gallai hyn gynnwys cynhyrchwyr ffilmiau sefydledig yn ogystal â chynhyrchwyr ffilmiau newydd a datblygol)
- Gweithgarwch yn cysylltu gwneuthurwyr ffilm datblygol â phenaethiaid adrannau ffilm talentog yng Nghymru a thu hwnt, yn enwedig sinematograffwyr, golygyddion, cyfansoddwyr, a dylunwyr cynhyrchu
- Gweithgarwch yn cysylltu gwneuthurwyr ffilm datblygol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y diwydiant fel dosbarthwyr, asiantau gwerthu, asiantau talent, rhaglenwyr prif wyliau ffilm, arianwyr eraill.
- Dirprwyaethau i wyliau ffilm neu farchnadoedd sy'n canolbwyntio ar animeiddio
- Dirprwyaethau i wyliau ffilm neu farchnadoedd gyda ffocws ar y potensial i gydweithio a chyd-gynhyrchu â gwledydd neu genhedloedd eraill

- Preswyliadau i wneuthurwyr ffilmiau mewn gwledydd neu genhedloedd eraill
- Arddangosiadau o waith gwneuthurwyr ffilmiau newydd neu ddatblygol o Gymru y tu allan i Gymru gerbron ffigurau allweddol yn y diwydiant
- Digwyddiadau rhwydweithio syml isel eu cost yn cysylltu talent o Gymru â thalent mewn gwledydd neu ranbarthau eraill yn y DU, y gellir eu darparu dros gyfnod hwy o amser.

## Yr hyn na allwn ei gyllido

Ni allwn gyllido'r canlynol drwy'r gronfa hon:

- Gweithgarwch sydd wedi'i gyfeirio'n bennaf at gynulleidfaoedd yn hytrach na gwneuthurwyr ffilmiau. Gweler ein cyllid Sinemâu, Gwyliau Ffilm a Digwyddiadau Unigol
- Gweithgarwch sydd o fudd yn bennaf i unigolion dan 18 oed neu mewn addysg amser llawn
- Gweithgarwch sy'n gwbl ddamcaniaethol neu'n seiliedig ar ymchwil
- Gweithgarwch sy'n bennaf yn cynorthwyo gwneuthurwyr ffilmiau nad ydynt wedi'u geni neu'u lleoli yng Nghymru
- Gweithgarwch sy'n bennaf yn cynorthwyo gwneuthurwyr ffilmiau sydd eisoes wedi creu ffilm nodwedd a ddosbarthwyd yn fasnachol yn y DU. Gall eich gweithgarwch gynnwys gwneuthurwyr ffilmiau mwy sefydledig os yw'n gwneud synnwyr fel rhan o garfan gefnogol, ond bydd gennych chi dargedau o hyd o ran nifer y gwneuthurwyr ffilmiau newydd neu ddatblygol y byddwch chi'n eu cyrraedd.
- Gweithgarwch sy'n bennaf yn cynorthwyo datblygiad criw neu actorion
- Gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd neu a fydd wedi digwydd cyn i ni ddyfarnu unrhyw grant
- Cyllid ar gyfer datblygu, cynhyrchu neu gwblhau ffilm unigol.

# Sut ydw i'n gwneud cais?

Am ein bod yn rheoli arian cyhoeddus, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeiswyr a bod gennym brosesau clir a thryloyw ar waith. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau'n anffurfiol a bod yn rhaid i chi wneud cais drwy gyflwyno'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb sydd i'w gweld ar ein gwefan i network@ffilmcymruwales.com ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau ategol gofynnol erbyn y dyddiad cau (oni bai y cytunir ar fformat arall o wneud cais i gefnogi mynediad).

Mae'n bwysig eich bod yn ymateb i bob cwestiwn yn y ffurflen Datganiad o Ddiddordeb oni bai ei fod yn cael ei ddisgrifio fel dewisol, gan na fydd ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb anghyflawn yn cael eu hasesu. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gofyn i chi lenwi ac ailgyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb.

Ein nod yw cysylltu yn ôl â phobl o fewn pedair wythnos i gyflwyno eu Datganiad o Ddiddordeb gorffenedig.

Os bydd eich Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei dderbyn, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno ffurflen gais ychydig yn hirach, ac mae rhagflas ohoni i'w gweld ar ein gwefan. Ein nod yw cysylltu yn ôl â phobl o fewn pedair wythnos i gyflwyno eu ffurflen gais orffenedig.

Mae gan rai o'r cwestiynau yn y Datganiad o Ddiddordeb a'r ffurflen gais opsiynau i gyflwyno atebion ar ffurf ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais. Fel arall, fe allwch chi ymateb i'r cwestiynau naratif yn y ffurflen drwy alwad fideo neu alwad ffôn fyw gyda'n tîm. Dylai hyn gael ei drefnu ymlaen llaw cyn y dyddiad cau. Bydd yr alwad hon yn cael ei recordio a'i rhannu gyda'n panel o aseswyr.

O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn ceisio ceisiadau ac yn datblygu cynigion gydag unigolion a sefydliadau trydydd parti.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

## Terfynau amser

Rydym wedi gosod y dyddiadau cau canlynol ar gyfer Connector i sicrhau y gallwn helpu timau llwyddiannus i gynllunio'r gwaith o gyflawni eu gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ariannol newydd:

- 19 Mawrth 2025, hanner dydd
- Ffenestr ymgeisio parhaus ar ol y dyddiad yma

Gallwch wneud cais ar ôl y dyddiadau cau hyn os gallwch ddangos tystiolaeth bod angen i chi gyflawni'r gweithgarwch hwnnw yn yr un flwyddyn ariannol, yn hytrach nag aros am y terfyn amser cynnar yn 2026.

## A allaf gael cymorth mynediad i gwblhau fy nghais?

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n f/Byddar, yn Anabl, yn niwroamrywiol, neu sydd yn colli eu golwg neu eu clyw, mae cymorth pellach ar gael hefyd i gwblhau cais. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel fideo byr neu ddec sleidiau. Cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn helpu cyn i chi wneud cais (gweler y Manylion Cyswllt isod).

## Manylion Cyswllt

Rhaid e-bostio ceisiadau wedi'u cwblhau i network@ffilmcymruwales.com oni bai ein bod wedi cytuno ar ddull arall o gyflwyno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau ynghylch mynediad, cysylltwch ag:

**Siobhan Brennan, Swyddog Gweithredol Talent a Datblygu**
**siobhan@ffilmcymruwales.com**

neu ffoniwch 02922 676711 a gadewch neges gan roi eich enw, rhif, amseroedd cyfleus o'r dydd i ffonio, a dwedwch eich bod yn gofyn am gymorth ynghylch mynediad.

## Manylion y Gyllideb

- Rhowch gymaint o fanylion â phosibl am eich cyllideb arfaethedig yn eich ffurflen gais lawn. Er ein bod yn deall ei bod yn bosibl mai dangosol yw'r gyllideb ar hyn o bryd, mae'n bwysig i ni wybod eich bod wedi meddwl am ddichonoldeb y prosiect.
- Ni ellir defnyddio arian y Loteri yn ôl-weithredol / ar gyfer gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd
- Dylai'r holl eitemau llinell yn y gyllideb fod yn rhesymol (e.e. ni allwn dalu costau teithio neu lety dosbarth cyntaf). Rhaid i dreuliau sy'n gysylltiedig â'r prosiect fod yn unol â'r canlynol:
    - llety y noson (ar gyfer dinas fawr neu dramor): £150
    - llety y noson - rhanbarthol yn y DU: £135
    - teithio gan gynnwys teithiau hedfan: economi yn unig, dim hedfan o fewn tir mawr y DU a dim tacsis oni bai eu bod yn gysylltiedig â gofyniad mynediad.
    - cynhaliaeth (bwyd): £40 y dydd.
    - Dim ond os oes eu hangen yn rhesymol y caiff costau teithio a llety eu hariannu gan Ffilm Cymru. Byddem yn disgwyl i dimau ddefnyddio offer cyfarfod ar-lein wrth gynllunio gweithgarwch i leihau teithio ac i weithredu yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Dim ond at brydau/cynhaliaeth sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â theithio a llety a gymeradwywyd y byddem yn cyfrannu.
- RHAID i bob gweithiwr llawrydd a rheolwr prosiect sy'n gysylltiedig â'r prosiect dderbyn o leiaf y Cyflog Byw am eu

hamser, oni bai bod sefydliad partner wedi cynnig adnodd staff i chi fel cyfraniad mewn nwyddau a'u bod yn gallu fforddio gwneud hynny.

- Nid oes angen i chi roi ffigurau ar gyfer pob eitem llinell yn y gyllideb dempled. Caiff y rhain eu darparu fel awgrym o'r costau y gallwch wneud cais amdanynt.
- Yr uchafswm y gallwn ei fuddsoddi yw £10,000.
- Rydym yn croesawu cyfraniad cyllid partneriaeth ac fel arfer rydym yn ceisio cyfrannu hyd at 75% o'r costau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect (gall y 25% sy'n weddill fod yn gyfraniadau mewn nwyddau, eich buddsoddiad eich hun neu fuddsoddiad trydydd parti). Fodd bynnag, gallwn ariannu 100% o gostau'r prosiect os yw'r prosiect yn cyd-fynd yn gryf â Blaenoriaethau Cyllido Connector.
- Os ydych yn bwriadu codi ffioedd ar y cyfranogwr, rydym yn argymell eich bod yn cadw'r rhain mor isel â phosibl. Os byddwch yn codi ffioedd, rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i sicrhau bod nifer priodol o leoedd bwrsariaeth ar gael a'u bod yn cael eu hysbysebu'n glir. Dylai eich gweithgarwch hefyd fod ar sail nid-er-elw yn unol â chyfraith cymorthdaliadau er mwyn sicrhau nad yw Ffilm Cymru yn rhoi mantais amhriodol i rai cwmnïau.
- Rhaid i bob cost a gyllidebwyd gynnwys TAW.

## Costau Mynediad

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod eu prosiect mor gynhwysol â phosibl ac felly rydym yn annog ymgeiswyr i gyllidebu ar gyfer costau mynediad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, llogi lleoliadau hygyrch, darparu capsiynau ar gyfer digwyddiadau ar-lein, yn ogystal ag ystyried gofynion mynediad unigol.

Rydym yn diffinio gofynion mynediad unigol o’r fath fel cymorth penodol sydd ei angen ar bobl f/Byddar, Anabl, niwroamrywiol, sydd yn colli eu golwg neu eu clyw neu sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol nad ydynt yn ystyried ei fod yn gysylltiedig â'r derminoleg hon. Mae enghreifftiau yn cynnwys dehonglydd BSL, costau cludiant neu lety ychwanegol ar gyfer person Anabl, neu gynorthwyydd personol ar gyfer person ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl.

Yn ogystal â hyn, gall ymgeiswyr ofyn am gostau mynediad tuag atyn nhw eu hunain neu dîm eu prosiect. Ni fydd unrhyw gostau mynediad ar gyfer eich tîm yn cyfrif tuag at uchafswm y dyfarniad.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Y Broses Asesu

Bydd penderfyniadau cyllido terfynol yn cael eu gwneud tua phedair wythnos ar ôl cyflwyno cais llawn.

Rydym hefyd yn disgwyl rhoi adborth ar bob cais o fewn pedair wythnos. Felly mae hyn yn golygu, os byddwch yn cyflwyno eich cais llawn o fewn wythnos i'r dyddiad y gofynnwn amdano, byddai eich amserlen gyfan o'r Datganiad o Ddiddordeb i'r penderfyniad cyllido tua wyth wythnos. Bydd yr amser y mae'n ei gymryd i chi gwblhau'r cais llawn yn ychwanegu at yr amser hwn.

Bydd y ceisiadau’n cael eu hasesu gan o leiaf ddau aelod o'r Adran Gynhyrchu. Gallai aseswyr allanol gael eu defnyddio hefyd, yn dibynnu ar natur a chyfanswm nifer y ceisiadau fydd wedi’u derbyn.

Mae’n bosibl y byddwn yn cynnig dim, y cyfan, neu rywfaint o’r cyllid rydych chi wedi gofyn amdano yn ôl ein disgresiwn.

## Meini Prawf Asesu

Rydym yn ystyried pob un o'r canlynol wrth asesu a ddylid cynnig cyllid:

- Cysondeb y cynnig â Blaenoriaethau Cyllido Connector.
- Eglurder y canlyniadau a fwriedir ar gyfer y cynnig
- Yr effaith bosibl ar wneuthurwyr ffilmiau newydd a datblygol o Gymru. Gwyddom nad yw niferoedd enfawr o gyfranogwyr yn cyd-fynd â datblygu talent o'r math hwn, na swm y cyllid sydd ar gael gennym, ond rydym eisiau deall beth allai'r gwaddol fod o ddarparu cymorth pwrpasol i garfannau llai.
- Dichonoldeb y cynnig o ran cyllideb a phrofiad y personél allweddol.
- Cysondeb y cynnig ag egwyddorion Arian y Loteri
- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau.

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut rydych wedi rheoli unrhyw gyllid blaenorol a gawsoch gan Ffilm Cymru.

## Adborth

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau trwy e-bost. Pan fydd cynnig yn aflwyddiannus bydd esboniad byr yn cael ei gynnwys.

Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau ac nid oes gennym yr adnoddau i roi adborth manylach i bob cynnig a gawn. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd y tîm yn cysylltu â chi i drafod adborth ymhellach trwy alwad, yn ôl disgresiwn y tîm ac yn dibynnu ar beth fydd yn bosibl ei gyflawni.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar y tîm i weithredu ar unrhyw adborth y mae Ffilm Cymru yn ei roi, ac nid yw gweithredu ar yr

adborth hwnnw yn rhoi sicrwydd y bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

## Ailgyflwyno

Nid oes modd ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol heb gymeradwyaeth Ffilm Cymru. Dylai ceisiadau sy’n cael eu hailgyflwyno ddangos newidiadau sylweddol sy’n mynd i’r afael ag unrhyw adborth blaenorol gan Ffilm Cymru: er enghraifft, newid partner neu gynllun cyflawni.

Os ydych yn bodloni’r maen prawf hwn ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un cynnig, mae’n rhaid i chi ddangos elfennau diwygiedig y cynnig yn glir yn y cais.

Os ydych am ailgyflwyno prosiect sydd wedi derbyn cynnig cyllid yn flaenorol ac sydd wedi'i ailgylchu, rhaid iddo gael ei drafod gydag aelod o'r tîm a dylech allu dangos tystiolaeth bod y cynnig bellach yn weithredol ac yn flaenoriaeth i'ch tîm.

Noder, os yw eich cynnig wedi’i wrthod dair gwaith i gyd, ni fyddwch yn cael ei gyflwyno eto, felly ystyriwch yn ofalus pryd i ailgyflwyno cynnig.

## Sut ydw i'n gweithio gyda Ffilm Cymru os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i mi?

Pan fyddwn yn dechrau gweithio gyda chi, byddwn yn datblygu 'addewid partneriaeth' i ddechrau sgwrs gyda chi am sut y gallwn gefnogi ein gilydd i wneud ein gwaith gorau. Gallai hyn olygu ein bod yn deall i beidio â'ch ffonio o gwmpas amser casglu plant o'r ysgol, er enghraifft, neu, os yn bosibl, i gysylltu â chi drwy e-bost yn hytrach na'r ffôn oherwydd colli clyw neu f/Fyddardod. Ni fydd yn orfodol i chi rannu unrhyw ran o'r wybodaeth hon.

Mae gan dîm Ffilm Cymru ddegawdau o brofiad ym maes datblygu talent a'r diwydiant ffilmiau a byddan nhw yno i'ch cynorthwyo gyda chyflwyniadau a chyngor. Os caiff cyllid ei ddyfarnu, byddwn yn mireinio eich cynllun mewn cydweithrediad â chi, gan gynnwys penderfynu ar yr amserlen orau i'r prosiect ochr yn ochr â gweithgareddau eraill trwy gydol y flwyddyn. Felly, rydym yn eich cynghori i beidio â gwneud amserlen eich prosiect nac unrhyw ymrwymiadau eraill yn derfynol hyd nes eich bod wedi trafod eich dyfarniad gyda Ffilm Cymru.

Fel un sy'n derbyn dyfarniad, byddwch hefyd yn cael eich cyflwyno i'n carfan o dimau prosiectau Connector yn ogystal â'r gwneuthurwyr ffilmiau, arddangoswyr a gweithgarwch cymunedol rydym yn eu cyllido, fel y gallwch rannu syniadau a chydweithio, os yw'n gwneud synnwyr.

Byddwn hefyd yn eich helpu i ystyried sut y gallwch gefnogi ymarfer cynaliadwy a chynhwysol yn y sector, gan gynnig cyngor a chymorth ar feysydd fel cynaliadwyedd amgylcheddol, ac amrywiaeth a chynhwysiant (gweler Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd). Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn bodloni eich rhwymedigaethau contractiol, gan ganiatáu digon o amser i Ffilm Cymru Wales adolygu a rhoi adborth a chymeradwyaeth.

## Y broses o ddyfarnu arian

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd Ffilm Cymru yn anfon llythyr cynnig ac yna contract hir, a fydd yn amlinellu holl delerau ac amodau eich cyllid.

## Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid?

Mae gan Ffilm Cymru Delerau Cyllido Safonol ond efallai y bydd yn pennu amodau cyllido arbennig ychwanegol ar gyfer eich prosiect a fydd yn cael eu nodi yn eich cytundeb.

Noder nad yw ein Telerau Safonol yn agored i drafodaeth. Ni fydd unrhyw ffioedd cyfreithiol yn benodol ar gyfer adolygu cytundeb cyllido Ffilm Cymru yn cael eu cynnwys yn eich cyllideb.

Mae ein Telerau Safonol yn cynnwys:

- Bydd cynnig o gyllid yn parhau ar agor am gyfnod penodol (6 mis fel arfer). Os na fydd y broses o dynnu arian i lawr yn dechrau o fewn y cyfnod hwn, gallai'r cynnig cyllid gael ei ddirymu.
- Bydd gofyn i chi greu cynllun cynaliadwyedd gyda Ffilm Cymru yn ystyried cynhwysiant a'r argyfwng hinsawdd. Bydd gofyn i chi ddatblygu Cod Ymddygiad i arwain eich prosiect, ac ymrwymo i egwyddorion gwrth-fwlio ac aflonyddu, gwrth-hiliaeth, tegwch a chynhwysiant fel sydd wedi'i nodi gan y BFI ac yn ein Cynllun Gweithredu 'Ffilm i Bawb';
- Bydd Ffilm Cymru yn talu mewn rhandaliadau wedi'u gosod yn erbyn cychwyn ar weithgarwch allweddol a'i gyflawni;
- Bydd angen i Ffilm Cymru gymeradwyo elfennau allweddol o'r prosiect, ac ni chaiff cymeradwyaeth ei hatal yn afresymol
- Bydd angen i chi ddarparu Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu eich Cwmni (os yw'n berthnasol);

- Bydd angen i chi ddarparu manylion cyfrif banc eich sefydliad neu yn enw'r prosiect, yn hytrach na chyfrif banc personol;
- Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o unrhyw yswiriant atebolrwydd sydd ei angen i gyflawni'r prosiect;
- Bydd angen i chi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw gyllid partneriaeth neu gyfraniad mewn nwyddau (os yw'n berthnasol);
- Bydd angen i chi roi cydnabyddiaeth i Ffilm Cymru yn nheitl eich prosiect gan gynnwys logos Ffilm Cymru, RHWYDWAITH BFI a’r Loteri Genedlaethol ar holl waith hyrwyddo’r prosiect;
- Bydd angen i chi gasglu a chyflwyno data amrywiaeth y cyfranogwyr gan ddefnyddio'r ddolen a gaiff ei darparu gan Ffilm Cymru;
- Bydd angen i chi anfon e-byst a CVs y cyfranogwyr i Ffilm Cymru fel rhan o'ch adroddiad terfynol;
- Bydd angen i chi gasglu data ‘meincnodi’ ar lefel profiad eich cyfranogwyr a lefel eu dealltwriaeth o’r meysydd rydych chi’n rhoi sylw iddynt ar ddechrau’r prosiect, i’w fesur yn erbyn data terfynol ac adborth gan gyfranogwyr ar ddiwedd y prosiect, fel rhan o’ch adroddiad terfynol ar lwyddiant y prosiect;
- Bydd angen i chi gyflwyno anfonebau a derbynebau sy'n dangos gwariant yn unol â'r contract;
- Bydd angen i chi gyflwyno o leiaf 3 delwedd eglur iawn o'ch prosiect;
- Bydd angen i'ch dyfarniad gydymffurfio â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 y DU ac unrhyw reolau a rheoliadau rheoli cymorthdaliadau perthnasol eraill, fel sy'n ofynnol gan lywodraeth y DU, a all newid.
- Bydd gofyn i chi sicrhau bod eich prosiect yn cael ei gynhyrchu yn unol â gofynion yr holl undebau ac urddau sydd ag awdurdodaeth ac â’r holl gyfreithiau a statudau cymwys.
- Darpariaethau Terfynu Safonol.

## Nodau Strategol

Isod rydym yn trafod mwy am ein blaenoriaethau strategol fel cwmni, a fydd yn eich helpu i ddeall rhai o amodau ein cyllid.

## Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd

Rydym yn anelu at sector ffilm lle:

- Gall pawb yng Nghymru gymryd rhan ym maes diwylliant ffilm, dysgu amdano a gweithio ynddo yn y ffordd y maen nhw eisiau, yn lleol, a heb gael eu cyfyngu gan nodweddion gwarchodedig, iaith na'u statws economaidd-gymdeithasol, a heb fygythiad o fwlio ac aflonyddu.
- Mae Cymru yn fyd-enwog fel lle llawn storïwyr ffilm pwerus.
- Mae cwmnïau ffilm ac unigolion entrepreneuraidd iawn yn herio'r model busnes ffilm traddodiadol, gan ddatblygu strategaethau incwm sy'n cefnogi cynaliadwyedd tymor hwy'r cwmni a'i gyflogeion.
- Mae gan griw medrus ac ystwyth yrfaoedd cynaliadwy, gan weithio ar draws ffilm, teledu a ffurfiau celfyddydol eraill.
- Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn darparu ysbrydoliaeth greadigol yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect Connector a gyllidwn ystyried sut y gallan nhw gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.

Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd sy'n unigryw i'ch prosiect a'ch cam datblygu, gan fynd i'r afael â phob un o'r meysydd isod ac ystyried sut maen nhw'n croestorri.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Er bod yr argyfwng newid hinsawdd yn argyfwng i bob sector, mae'r diwydiant ffilmiau yn cynhyrchu lefel uchel o allyriadau mewn perthynas â'i faint a gellir dadlau ei fod mewn sefyllfa dda i greu effaith. Gall cynhyrchu yn arbennig fod yn hynod o wastraffus a defnyddio llawer o adnoddau ond gall elfennau eraill o'r diwydiant gael effaith fawr hefyd. Bydd angen i newid systematig yr ydym yn ei ystyried, o gamau cynnar ein gwaith, ddigwydd os ydym am gyrraedd allyriadau carbon sero net a bod yn amgylcheddol gynaliadwy.

Gan adeiladu ar ein cynlluniau Cymru Werdd, mae Ffilm Cymru wedi meithrin partneriaethau gyda Chlwstwr Creadigol, Media Cymru, y BFI a Bafta Albert i gynnal ymchwil a chynnig cyllid ymchwil a datblygu i wella cynaliadwyedd y diwydiant sgrin.

Rydyn ni'n awyddus i'r rhai y gweithiwn gyda nhw brif ffrydio ffyrdd gwyrdd o weithio yn eu gweithgarwch, gan ystyried teithio a’r defnydd o ddeunyddiau, talu am ymgynghorydd gwyrdd, neu sut maen nhw'n ymwneud â lleoliadau a chymunedau (gan gynnwys diwrnodau gwirfoddoli er enghraifft). Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyllid Cymru Werdd, adnoddau a chyfleoedd perthnasol ar ein gwefan.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Dylai ffilm fod i bawb. Mae gan y cyfrwng y potensial i gyfleu ein brwydrau a’n llawenydd unigryw, gan wella ein hymdeimlad o berthyn. Gall ein helpu i ddeall ein hunain a'n gilydd yn well; a gall ein cludo, hyd yn oed am ddim ond naw deg munud, i fyd o bosibiliadau diderfyn.

Fodd bynnag, mae yna lawer o bobl o hyd sy'n cael eu hatal neu eu rhwystro rhag dod i mewn i'r sector ffilmiau, cymryd rhan ynddo ac elwa ohono yn y ffordd y mae eraill yn ei wneud. Fel sy’n cael ei

egluro yn ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb, credwn fod angen ffyrdd newydd o weithio er mwyn creu newid. Credwn mai ail-ddychmygu ffyrdd mwy cynhwysol o weithio, dysgu am gyfrwng ffilm a'i ddathlu yw'r unig ffordd y byddwn yn creu'r math o newid cynaliadwy y gellir ei ailadrodd, a fydd o fudd i bob un ohonom.

Dylech feddwl am sut y byddwch yn cefnogi tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn benodol sut y gallwch fynd i'r afael â materion bwlio, aflonyddu a hiliaeth yn y sector,  wrth i chi weithio ar eich prosiect. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried cynrychiolaeth, o ran eich tîm ac mewn unrhyw ddeunyddiau, yn ogystal â phrosesau a diwylliant. Byddwch am osgoi jargon wrth hyrwyddo eich gweithgarwch, er enghraifft, cyfeirio at gymorth bwrsariaeth ar y brig, a rhoi digon o amser i chi ledaenu'r neges am y cyfle y tu allan i rwydweithiau arferol. Rydym hefyd yn argymell eich bod yn cyd-ddylunio cod ymddygiad gyda'ch cyfranogwyr, gan sefydlu llinellau cyfathrebu clir a ffynonellau cymorth o'r cychwyn cyntaf.

# Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales

Mae'r Telerau Busnes Safonol ("Telerau Safonol") hyn yn rhan o unrhyw gytundeb ariannu ("Cytundeb Ariannu") a roddir gan Ffilm Cymru Wales CBC (FfCW) mewn perthynas â'ch prosiect ("Prosiect") a dylid eu darllen ar y cyd â'r cytundeb hwnnw. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, y Cytundeb Ariannu fydd yn drech.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau Llywodraeth ynglŷn â dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru newid. Mae FfCW felly yn cadw'r hawl i adolygu cynlluniau ariannu a/neu newid ei bolisïau, gweithdrefnau a meini prawf asesu.

2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, difrod na chostau a gwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
   - Y broses ymgeisio;
   - Penderfyniad FfCW i beidio â darparu dyfarniad i ymgeisydd; neu
   - Ymdrin â chais.

3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni chaiff apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd wrth y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'r cais neu eu bod wedi'u cymhwyso yn y fath fodd fel y niweidiwyd canlyniad y cais. Mae Polisi Cwynion FfCW i'w weld ar ein gwefan.

4. Nid oes rheidrwydd ar FfCW i dalu unrhyw arian hyd nes y bydd wedi derbyn copi wedi'i weithredu'n llawn o'r Cytundeb Ariannu a hyd nes y bodlonwyd unrhyw rag-amodau fel a ddiffiniwyd yn y Cytundeb Ariannu.

5. Rhaid i bob dyfarniad gydymffurfio â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 y DU ac unrhyw reolau a rheoliadau

rheoli cymorthdaliadau perthnasol eraill, fel sy'n ofynnol gan llywodraeth y DU, a all newid. Er mwyn bodloni gofynion tryloywder cymorthdaliadau, mae'n ofynnol i FfCW gyhoeddi manylion unrhyw gwmni sy'n derbyn mwy na £100,000 o gyllid gennym (gan gynnwys yn gronnol yn ystod y broses o ddatblygu neu gynhyrchu'r ffilm) ar y gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau (y Gronfa Ddata Cymorthdaliadau) o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad (neu'r dyddiad y mae'r dyfarniadau cronedig yn fwy na £100,000). Bydd y manylion a gyhoeddir yn cynnwys o leiaf: swm y cymhorthdal a dderbyniwyd (swm y dyfarniad), enw'r cwmni, rhif cofrestru'r cwmni, maint y cwmni, bod y cwmni'n ddarparwr nwyddau, rhanbarth, sector.

6. Mae'n ofynnol i FfCW yn fwy cyffredinol gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau y mae'n ei dderbyn, a'r dyfarniadau a wneir: bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion llinell uchaf y prosiect.

7. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i aelodau'r cyhoedd wneud cais am wybodaeth benodol y mae FfCW yn ei dal ar ran ein cyllidwyr. Felly, os byddwch yn dewis gwneud cais i FfCW, gall y wybodaeth a roddwch gael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn gyfan neu'n rhannol, oni bai bod sail ddigonol o dan y Ddeddf i'w dal yn ôl, fel yn achos gwybodaeth fasnachol sensitif, er enghraifft.

8. Mae FfCW wedi ymrwymo i wella cynaliadwyedd diwydiant sgrin Cymru. Gofynnwn i bob tîm sy'n ymgeisio lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth ac i bob ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd, y maent yn adrodd yn eu herbyn. Gall FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth dienw rydych yn ei ddarparu yn flynyddol wedi'i gyfanredu â data ceisiadau a data dyfarniadau eraill; ceir manylion pellach am hyn yn ein Polisi Preifatrwydd:

https://ffilmcymruwales.com/index.php/cy/amdanom-ni/ein-polisiau

9. Mae FfCW yn mynnu bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 – mae mwy i'w weld fan yma: equalityhumanrights.com

10. Mae FfCW yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain ac arian gan Gymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar y cyllid a dderbynnir, bydd yn ofynnol i dderbynwyr cyllid roi cydnabyddiaeth i FfCW, Cyngor Celfyddydau Cymru a/neu'r BFI (gyda chydnabyddiaeth gyfatebol i'r Loteri Genedlaethol) a/neu Lywodraeth Cymru, yn yr holl ddeunyddiau llafar ac ysgrifenedig/cyhoeddedig sy'n ymwneud â'r Prosiect gan gynnwys defnyddio logos, fel y'i darperir.

11. Os oes gan ymgeiswyr neu aelodau eu tîm craidd unrhyw berthynas ag aelodau staff neu fwrdd FfCW, neu ein cyllidwyr allweddol, rhaid i'r ymgeisydd nodi hyn yn ei ffurflen gais. Cynghorir ymgeiswyr i beidio â cheisio dylanwadu ar lwyddiant eu cais trwy gysylltu ag aelodau'r bwrdd neu unrhyw un heblaw'r person sy'n bwynt cyswllt ar gyfer y cais.

12. Gall FfCW ddal dyfarniad yn ôl neu adennill dyfarniad yn yr amgylchiadau canlynol:
- os yw'r cais wedi'i lenwi'n anonest neu â gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol;
- os yw derbynwyr dyfarniad yn ymddwyn yn anonest neu'n esgeulus er anfantais i'r prosiect
- AC
- unrhyw doriad arall fel a ddiffinnir gan y Cytundeb Ariannu.